



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2021 Rhif 1294 (Cy. 328)

2021 No. 1294 (W. 328)

**YMADAEL Â'R UNDEB
EWROPEAIDD, CYMRU**

**EXITING THE EUROPEAN
UNION, WALES**

ADDYSG, CYMRU

EDUCATION, WALES

Rheoliadau Addysg (Athrofa
Brifysgol Ewropeaidd) (Cymru)
(Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2021

The Education (European
University Institute) (Wales)
(Amendment) (EU Exit)
Regulations 2021

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Addysg (Athrofa Brifysgol Ewropeaidd) (Cymru) 2014 (O.S. 2014/3037 (Cy. 303)) ("Rheoliadau'r Athrofa Brifysgol Ewropeaidd"). Mae'r diwygiadau yn cymryd effaith mewn perthynas â blwyddyn academaidd sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2022. Y prif ddiwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yw—

- (a) gwneud newidiadau o ganlyniad i ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd;
- (b) gwneud newidiadau sy'n ymwneud â phersonau sydd â chaniatâd Calais neu bersonau penodol sy'n ddiodefwrwr trais domestig neu gam-drin domestig neu sydd wedi cael profedigaeth;
- (c) newid y dyddiad olaf i wneud cais i 28 Chwefror.

Mae rheoliad 4 yn diwygio'r diffiniadau.

Mae rheoliad 5 yn diwygio'r darpariaethau sy'n ymwneud â chymhwystra i gael cymorth i fyfyrwyr. Mae'n gwneud darpariaeth ar gyfer categorïau cymhwystra newydd sy'n gymwys mewn perthynas â cheisiadau am gymorth gan fyfyrwyr sy'n ymgymryd â chyrtsiau mewn blwyddyn academaidd sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2022. Mae'n cyfyngu categorïau

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Regulations amend the Education (European University Institute) (Wales) Regulations 2014 (S.I. 2014/3037 (W. 303)) ("the European University Institute Regulations"). The amendments take effect in relation to an academic year beginning on or after 1 September 2022. The principal amendments made by these Regulations are—

- (a) to make changes in consequence of the United Kingdom's exit from the European Union;
- (b) to make changes relating to persons with Calais leave or certain persons who are the victims of domestic violence or abuse or who are bereaved;
- (c) to change the application deadline to 28 February.

Regulation 4 amends the definitions.

Regulation 5 amends the provisions relating to eligibility for student support. It makes provision for new eligibility categories which apply in relation to applications for support by students undertaking courses in an academic year beginning on or after 1 September 2022. It restricts certain eligibility categories applicable before 1 September 2022 to

cymhwysra penodol a oedd yn gymwys cyn 1 Medi 2022 i fyfyrwyr sy'n dod o fewn y categorïau hynny cyn 1 Medi 2022 ac sy'n ymgymryd â chwrs sy'n dechrau cyn 1 Medi 2022. Mae'r categorïau cymhwysra hynny yn parhau i fod yn gymwys mewn perthynas â chwrs o'r fath a'r cwrs cyntaf y caniateir i statws y person hwnnw fel myfyriwr cymwys gael ei drosglwyddo iddo yn unol â Rheoliadau'r Athrofa Brifysgol Ewropeaidd.

Mae rheoliad 6 yn gwneud diwygiadau cyfatebol mewn perthynas â throsglwyddo cymhwysra myfyriwr cymwys.

Mae rheoliadau 7 i 10 yn gwneud diwygiadau i ddarpariaethau sy'n ymwneud â grantiau at gostau byw a chostau eraill, grantiau dibynyddion mewn oed a lwfans dysgu rhieni.

Mae rheoliad 11 yn diwygio Atodlen 1 i Reoliadau'r Athrofa Brifysgol Ewropeaidd, yn bennaf i fewnosod paragraffau cymhwysra newydd a diffiniadau cysylltiedig. Mae'r diwygiadau yn gymwys mewn perthynas—

- â phersonau y rhoddwyd diogelwch dyngarol iddynt, personau y rhoddwyd caniatâd iddynt aros fel personau diwladwriaeth, personau sydd â chaniatâd i aros o dan adran 67 a phersonau sy'n bodloni gofynion paragraffau 352J, 352K, 352L neu 352T o'r rheolau mewnfudo, gan gynnwys plant y rhoddwyd "caniatâd oherwydd llinach" iddynt (personau sydd â chaniatâd Calais);
- â phersonau y rhoddir caniatâd iddynt aros yn y Deyrnas Unedig o dan y rheolau mewnfudo oherwydd eu bod yn ddioddefwyr trais domestig neu gam-drin domestig neu oherwydd eu bod wedi cael profedigaeth a'u plant;
- â phersonau sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig, Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw a Gweriniaeth Iwerddon;
- â phersonau sy'n dod o fewn cwmphas personol darpariaethau hawliau dinasyddion y cytundeb ymadael â'r UE, cytundeb gwahanu EFTA yr AEE a'r cytundeb ar hawliau dinasyddion Swisaidd ("y Cytundebau") ac sydd â chaniatâd i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi o dan reolau mewnfudo'r cynllun preswyllo (fel y diffinnir "residence scheme immigration rules" yn adran 17(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020);

students falling within those categories before 1 September 2022 and undertaking a course beginning before 1 September 2022. Those eligibility categories continue to apply in relation to such a course and the first course to which that person's status as an eligible student may be transferred in accordance with the European University Institute Regulations.

Regulation 6 makes corresponding amendments in relation to the transfer of eligibility of an eligible student.

Regulations 7 to 10 make amendments to provisions relating to grants for living and other costs, adult dependants' grants and parents' learning allowance.

Regulation 11 amends Schedule 1 to the European University Institute Regulations, principally to insert new eligibility paragraphs and related definitions. The amendments apply in relation to—

- persons granted humanitarian protection, persons granted stateless leave, persons with section 67 leave to remain and persons who satisfy the requirements of paragraphs 352J, 352K, 352L or 352T of the immigration rules, including children granted "leave in line" (persons with Calais leave);
- persons who are granted leave to remain in the United Kingdom under the immigration rules as a result of being a victim of domestic violence or domestic abuse or having been bereaved and their children;
- persons settled in the United Kingdom who have been ordinarily resident in the United Kingdom, the Channel Islands and the Isle of Man and the Republic of Ireland;
- persons falling within the personal scope of the citizens' rights provisions of the EU withdrawal agreement, the EEA EFTA separation agreement and the Swiss citizens' rights agreement ("the Agreements") who have leave to enter or remain in the United Kingdom granted under residence scheme immigration rules (as defined in section 17(1) of the European Union (Withdrawal Agreement) Act 2020);

- â phersonau sy'n dod o fewn cwmpas personol darpariaethau hawliau dinasyddion y Cytundebau nad yw eu ceisiadau am ganiatâd o'r fath wedi eu penderfynu eto, a dinasyddion Gwyddelig nad yw'n ofynnol iddynt gael caniatâd i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi;
- ag aelodau o deuluoedd personau perthnasol o Ogledd Iwerddon sydd â chaniatâd i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi o dan reolau mewnffudol'r cynllun preswyllo;
- â gweithwyr trawsffiniol o fewn ystyr "frontier worker" yn rheoliad 3 o Reoliadau Hawliau Dinasyddion (Gweithwyr Trawsffiniol) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1213);
- â phersonau sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig a arferodd hawl i breswyllo yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd neu'r Swistir cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu;
- â gwladolion o'r Deyrnas Unedig ac aelodau o'u teuluoedd sydd, cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu, wedi bod yn preswyllo fel arfer yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd neu'r Swistir, mewn perthynas â chyrtsiau sy'n dechrau cyn 1 Ionawr 2028;
- ag aelodau o deuluoedd gwladolion o'r Deyrnas Unedig sy'n preswyllo yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd;
- â gwladolion o'r Deyrnas Unedig ac aelodau o'u teuluoedd sy'n preswyllo yn Gibraltar a phersonau sydd â hawl i breswyllo yn Gibraltar sy'n codi o dan y cytundeb ymadael â'r UE;
- â phlant gwladolion Swisaidd sydd â hawlogaeth i gael cymorth yn rhinwedd Erthygl 18(2) o'r cytundeb ar hawliau dinasyddion Swisaidd;
- â phlant gweithwyr Twrcaidd sy'n preswyllo yn y Deyrnas Unedig cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.
- persons falling within the personal scope of the citizens' rights provisions of the Agreements whose applications for such leave are not yet determined, and Irish citizens who do not require leave to enter or remain in the United Kingdom;
- family members of relevant persons of Northern Ireland who have leave to enter or remain in the United Kingdom under residence scheme immigration rules;
- frontier workers within the meaning of regulation 3 of the Citizens' Rights (Frontier Workers) (EU Exit) Regulations 2020 (S.I. 2020/1213);
- persons settled in the United Kingdom who exercised a right of residence in the European Economic Area or Switzerland before IP completion day;
- United Kingdom nationals and their family members who, before IP completion day, have been ordinarily resident in the European Economic Area or Switzerland, in relation to courses beginning before 1 January 2028;
- family members of United Kingdom nationals who are resident in the United Kingdom and Islands;
- United Kingdom nationals and their family members resident in Gibraltar and persons with a right to reside in Gibraltar arising under the EU withdrawal agreement;
- children of Swiss nationals who are entitled to support by virtue of Article 18(2) of the Swiss citizens' rights agreement;
- children of Turkish workers resident in the United Kingdom before IP completion day.

Mae'r diwygiadau hefyd yn gwneud mân gywiriadau.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Is-adran Addysg Uwch, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

The amendments also make minor corrections.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained from the Higher Education Division, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ.

2021 Rhif 1294 (Cy. 328)

**YMADAEL Â'R UNDEB
EWROPEAIDD, CYMRU**

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg (Athrofa
Brifysgol Ewropeaidd) (Cymru)
(Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2021

Gwnaed 20 Tachwedd 2021

Gosodwyd gerbron *Senedd*
Cymru 23 Tachwedd 2021

Yn dod i rym 31 Rhagfyr 2021

2021 No. 1294 (W. 328)

**EXITING THE EUROPEAN
UNION, WALES**

EDUCATION, WALES

The Education (European
University Institute) (Wales)
(Amendment) (EU Exit)
Regulations 2021

Made 20 November 2021

Laid before Senedd Cymru 23 November 2021

Coming into force 31 December 2021

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 22(1)(a), 22(2)(a), 22(2)(e) a 42(6) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998(1), ac sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(2), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred on the Secretary of State under sections 22(1)(a), 22(2)(a), 22(2)(e) and 42(6) of the Teaching and Higher Education Act 1998(1), and now exercisable by them(2), make the following Regulations:

(1) 1998 p. 30; diwygiwyd adran 22(1) gan Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 (p. 21), adran 146(2)(a) a Deddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017 (p. 29), adran 86(2). Diwygiwyd adran 22(2)(a) gan Ddeddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017 (p. 29), adran 86(3)(a). *Gweler* adran 43(1) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 am y diffiniadau o "prescribed" a "regulations".

(2) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol yn adrannau 22(1)(a), 22(2)(a) a 22(2)(e) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn ymwneud â gwneud darpariaeth o ran Cymru gan adran 44 o Ddeddf Addysg Uwch 2004 (p. 8), ac mae is-adran (2)(a) yn arferadwy yn gydedol â'r Ysgrifennydd Gwladol. Trosglwyddwyd swyddogaeth yr Ysgrifennydd Gwladol yn adran 42, i'r graddau y mae'n arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan O.S. 1999/672. Trosglwyddwyd holl swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru uchod i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

(1) 1998 c. 30; section 22(1) was amended by the Learning and Skills Act 2000 (c. 21), section 146(2)(a) and the Higher Education and Research Act 2017 (c. 29), section 86(2). Section 22(2)(a) was amended by the Higher Education and Research Act 2017 (c. 29), section 86(3)(a). *See* section 43(1) of the Teaching and Higher Education Act 1998 for the definitions of "prescribed" and "regulations".

(2) The Secretary of State's functions in sections 22(1)(a), 22(2)(a) and 22(2)(e) of the Teaching and Higher Education Act 1998 were transferred to the National Assembly for Wales so far as they relate to making provision in relation to Wales by section 44 of the Higher Education Act 2004 (c. 8), with subsection (2)(a) exercisable concurrently with the Secretary of State. The Secretary of State's function in section 42 was transferred, in so far as exercisable in relation to Wales, to the National Assembly for Wales by S.I. 1999/672. All of the above functions of the National Assembly for Wales were transferred to the Welsh Ministers by virtue of paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c. 32).

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Athrofa Brifysgol Ewropeaidd) (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2021.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 31 Rhagfyr 2021.

2. Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â darparu cymorth i fyfyrwr mewn perthynas â blwyddyn academiaidd sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2022, pa un a wneir unrhyw beth a wneir o dan y Rheoliadau hyn cyn, ar neu ar ôl y dyddiad hwnnw.

Diwygio Rheoliadau Addysg (Athrofa Brifysgol Ewropeaidd) (Cymru) 2014

3. Mae Rheoliadau Addysg (Athrofa Brifysgol Ewropeaidd) (Cymru) 2014(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

4. Yn rheoliad 3 (dehongli)—

(a) rhifer y testun presennol yn baragraff (1);

(b) yn y lle priodol mewnosoder—

““mae i “cyfnod perthnasol” yr ystyr a roddir i “relevant period” gan reoliad 4 o Reoliadau Hawliau Dinasyddion 2020;”;

““mae i “cytundeb ar hawliau dinasyddion Swisaidd” yr ystyr a roddir i “Swiss citizens’ rights agreement” gan adran 39(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020;”;

““mae i “person perthnasol o Ogledd Iwerddon” yr ystyr a roddir i “relevant person of Northern Ireland” gan reolau mewnfudo'r cynllun preswyllo;”;

““ystyr “person sydd â chaniatâd Calais” (“*person with Calais leave*”) yw person a chanddo ganiatâd cyfredol i aros o dan baragraffau 352J, 352K, 352L neu 352T o'r rheolau mewnfudo (caniatâd Calais a “caniatâd oherwydd llinach” a roddir yn rhinwedd bod yn blentyn dibynnol i berson y rhoddwyd caniatâd Calais iddo);”;

““ystyr “person sydd â hawliau gwarchoddedig” (“*person with protected rights*”) yw—

(1)(a) person o fewn cwrpas personol y darpariaethau hawliau dinasyddion—

(i) a chanddo ganiatâd i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros

Title and commencement

1.—(1) The title of these Regulations is the Education (European University Institute) (Wales) (Amendment) (EU Exit) Regulations 2021.

(2) These Regulations come into force on 31 December 2021.

2. These Regulations apply in relation to the provision of support to a student in relation to an academic year which begins on or after 1 September 2022, whether or not anything done under these Regulations is done before, on or after that date.

Amendment of the Education (European University Institute) (Wales) Regulations 2014

3. The Education (European University Institute) (Wales) Regulations 2014(1) are amended as follows.

4. In regulation 3 (interpretation)—

(a) number the existing text as paragraph (1);

(b) in the appropriate place insert—

““2020 Citizens’ Rights Regulations” (“*Rheoliadau Hawliau Dinasyddion 2020*”) means the Citizens’ Rights (Application Deadline and Temporary Protection) (EU Exit) Regulations 2020(2);”;

““person granted leave to remain as a protected partner” (“*person y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel partner a ddiogelir*”) means a person who has extant leave to remain in the United Kingdom as either a victim of domestic violence or domestic abuse or as a bereaved partner under any of the following provisions of the immigration rules—

(a) paragraph 289B (victims of domestic violence);

(b) paragraphs D-DVILR.1.1 and D-DVILR.1.2 of Appendix FM (victims of domestic abuse);

(c) paragraphs 40 and 41 of Appendix Armed Forces (victims of domestic violence who are partners of members of the armed forces);

(1) O.S. 2014/3037 (Cy. 303), a ddiwygiwyd gan O.S. 2016/211 (Cy. 84), O.S. 2018/814 (Cy. 165), O.S. 2019/235 (Cy. 54), O.S. 2019/1192 (Cy. 209), O.S. 2020/1302 (Cy. 287), O.S. 2021/9 (Cy. 4).

(1) S.I. 2014/3037 (W. 303), amended by S.I. 2016/211 (W. 84); S.I. 2018/814 (W. 165), S.I. 2019/235 (W. 54), S.I. 2019/1192 (W. 209), S.I. 2020/1302 (W. 287), S.I. 2021/9 (W. 4).

(2) S.I. 2020/1209, amended by S.I. 2020/1309.

ynddi a roddwyd yn rhinwedd rheolau mewnfudo'r cynllun preswyllo(1);

- (ii) sy'n ddinesydd Gwyddelig nad yw'n ofynnol iddo, yn unol ag adran 3ZA o Ddeddf Mewnfudo 1971(2), gael caniatâd i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi;
 - (iii) sy'n geisydd at ddibenion rheoliad 4 o Reoliadau Hawliau Dinasyddion 2020 pan na fo'r cyfnod perthnasol wedi dod i ben; neu
 - (iv) fel arall sydd â hawliau y bernir eu bod yn gymwys yn rhinwedd unrhyw ddarpariaethau tybio hawliau dinasyddion; neu
- (b) aelod o deulu person perthnasol o Ogledd Iwerddon at ddibenion rheolau mewnfudo'r cynllun preswyllo, pan fo gan yr aelod hwnnw o'r teulu ganiatâd i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi a roddwyd yn rhinwedd rheolau mewnfudo'r cynllun preswyllo;
- (2) Ym mharagraff (1)(a)(iv), ystyr "darpariaethau tybio hawliau dinasyddion" yw—
- (a) Erthygl 18(2) a (3) (dyroddi dogfennau preswyllo) o'r cytundeb ymadael â'r UE;
 - (b) Erthygl 17(2) a (3) (dyroddi dogfennau preswyllo) o gytundeb gwahanu EFTA yr AEE (fel y diffinnir "EEA EFTA separation agreement" yn adran 39(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020(3)); neu
 - (c) Erthygl 16(2) a (3) (dyroddi dogfennau preswyllo) o'r cytundeb ar hawliau dinasyddion Swisaidd;";

"ystyr "person y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel partner a ddiogelir" ("*person granted leave to remain as a protected partner*") yw person a chanddo ganiatâd cyfredol i aros yn y Deyrnas Unedig naill ai fel dioddefwr trais domestig neu gam-drin domestig neu fel partner sydd wedi cael profedigaeth o dan unrhyw un neu ragor o'r darpariaethau a ganlyn o'r rheolau mewnfudo—

- (d) paragraph 288, as a person in relation to whom the requirements in paragraph 287(b) of those rules are met (bereaved spouses or civil partners);
- (e) paragraphs D-BPILR.1.1 and D-BPILR.1.2 of Appendix FM (bereaved partners);
- (f) paragraphs 36 and 37 of Appendix Armed Forces (bereaved partners); or
- (g) paragraph 295N, as a person in relation to whom the requirements in paragraph 295M of those rules are met (bereaved unmarried or same sex partners);";

““person with Calais leave” (“person sydd â chaniatâd Calais”) means a person with extant leave to remain under paragraphs 352J, 352K, 352L or 352T of the immigration rules (Calais leave and “leave in line” granted by virtue of being a dependent child of a person granted Calais leave);”;

““person with protected rights” (“*person sydd â hawliau gwarchoddedig*”) means—

(1)(a) a person within the personal scope of the citizens’ rights provisions who—

- (i) has leave to enter or remain in the United Kingdom granted by virtue of residence scheme immigration rules(1);
- (ii) is an Irish citizen who, pursuant to section 3ZA of the Immigration Act 1971(2), does not require leave to enter or remain in the United Kingdom;
- (iii) is an applicant for the purposes of regulation 4 of the 2020 Citizens’ Rights Regulations where the relevant period has not expired; or
- (iv) otherwise has rights deemed to apply by virtue of any citizens’ rights deeming provisions; or

(1) Diffiniwyd yn adran 17(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020 (p. 1).
(2) 1971 p. 77, mewnosodwyd adran 3ZA gan Ddeddf Mewnfudo a Chyd-drefnu Nawdd Cymdeithasol (Ymadael â'r UE) 2020 (p. 20).
(3) 2020 p. 1.

(1) Defined in section 17(1) of the European Union (Withdrawal Agreement) Act 2020 (c. 1).
(2) 1971 c. 77, section 3ZA was inserted by the Immigration and Social Security Co-ordination (EU Withdrawal) Act 2020 (c. 20).

- (a) paragraff 289B (dioddefwyr trais domestig);
- (b) paragraffau D-DVILR.1.1 a D-DVILR.1.2 o Atodiad FM (dioddefwyr cam-drin domestig);
- (c) paragraffau 40 ac 41 o Atodiad Lluoedd Arfog (dioddefwyr trais domestig sy'n bartneriaid i aelodau o'r lluoedd arfog);
- (d) paragraff 288, fel person y mae'r gofynion ym mharagraff 287(b) o'r rheolau hynny wedi eu bodloni mewn perthynas ag ef (priodau neu bartneriaid sifil sydd wedi cael profedigaeth);
- (e) paragraffau D-BPILR.1.1 a D-BPILR.1.2 o Atodiad FM (partneriaid sydd wedi cael profedigaeth);
- (f) paragraffau 36 a 37 o Atodiad Lluoedd Arfog (partneriaid sydd wedi cael profedigaeth); neu
- (g) paragraff 295N, fel person y mae'r gofynion ym mharagraff 295M o'r rheolau hynny wedi eu bodloni mewn perthynas ag ef (partneriaid di-briod neu bartneriaid o'r un rhyw sydd wedi cael profedigaeth);

“mae i “rheolau mewnffudo'r cynllun preswyllo” yr ystyr a roddir i “residence scheme immigration rules” gan adran 17(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020;”;

“ystyr “Rheoliadau Hawliau Dinasyddion 2020” (“2020 Citizens’ Rights Regulations”) yw Rheoliadau Hawliau Dinasyddion (Dyddiad Cau ar gyfer Ceisiadau a Diogelwch Dros Dro) (Ymadael â'r UE) 2020(1);”;

- (c) ar ôl paragraff (1) mewnosoder—

“(2) At ddibenion y Rheoliadau hyn, mae person o fewn cwmpas personol y darpariaethau hawliau dinasyddion os yw'r person hwnnw yn dod o fewn—

- (a) Erthygl 10 (cwmpas personol) o'r cytundeb ymadael â'r UE;
- (b) Erthygl 9 (cwmpas personol) o gytundeb gwahanu EFTA yr AEE (fel y diffinnir “EEA EFTA separation agreement” yn adran 39(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020); neu

- (b) a family member of a relevant person of Northern Ireland for the purposes of residence scheme immigration rules, where that family member has leave to enter or remain in the United Kingdom granted by virtue of residence scheme immigration rules.

(2) In paragraph (1)(a)(iv), “citizens’ rights deeming provisions” means—

- (a) Article 18(2) and (3) (issuance of residence documents) of the EU withdrawal agreement;
- (b) Article 17(2) and (3) (issuance of residence documents) of the EEA EFTA separation agreement (as defined in section 39(1) of the European Union (Withdrawal Agreement) Act 2020(1)); or
- (c) Article 16(2) and (3) (issuance of residence documents) of the Swiss citizens’ rights agreement;”;

““relevant period” (“*cyfnod perthnasol*”) has the meaning given by regulation 4 of the 2020 Citizens’ Rights Regulations;”;

““relevant person of Northern Ireland” (“*person perthnasol o Ogledd Iwerddon*”) has the meaning given by residence scheme immigration rules;”;

““residence scheme immigration rules” (“*rheolau mewnffudo'r cynllun preswyllo*”) has the meaning given by section 17(1) of the European Union (Withdrawal Agreement) Act 2020;”;

““Swiss citizens’ rights agreement” (“*cytundeb ar hawliau dinasyddion Swisaidd*”) has the meaning given by section 39(1) of the European Union (Withdrawal Agreement) Act 2020;”;

- (c) after paragraph (1) insert—

“(2) For the purposes of these Regulations, a person is within the personal scope of the citizens’ rights provisions if that person falls within—

- (a) Article 10 (personal scope) of the EU withdrawal agreement;
- (b) Article 9 (personal scope) of the EEA EFTA separation agreement (as defined in section 39(1) of the European Union (Withdrawal Agreement) Act 2020); or

(1) O.S. 2020/1209, a ddiwygiwyd gan O.S. 2020/1309.

(1) 2020 c. 1.

(c) Erthygl 10 (cwmpas personol) o'r cytundeb ar hawliau dinasyddion Swisaidd."

5. Yn rheoliad 6 (myfyrwyr cymwys)—

(a) ym mharagraff (2)—

(i) yn lle "baragraff" rhodder "baragraffau (2B) a";

(ii) yn lle is-baragraff (b) rhodder—

"(b) os yw Gweinidogion Cymru yn penderfynu mewn cysylltiad â chais am gymorth o dan y Rheoliadau hyn fod y person yn dod o fewn un o'r categorïau a nodir—

(i) ym mharagraffau 2A, 4, 6A, 7, 8A, 9A, 9B, 9BA, 9C, 9D, 10A, 11A a 12A yn Rhan 2 o Atodlen 1, neu

(ii) ym mharagraffau 6, 7, 8, 9, 10, 11 a 12 yn Rhan 2 o Atodlen 1, pan fo paragraff (2A) yn gymwys.

(2A) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan fo—

(a) mewn cysylltiad â chwrs dynodedig sy'n dechrau cyn 1 Medi 2022, Gweinidogion Cymru, wrth asesu cais am gymorth gan berson ("A"), wedi penderfynu bod A wedi dod o fewn un o'r categorïau a nodir ym mharagraffau 6, 7, 8, 9, 10, 11 a 12 yn Rhan 2 o Atodlen 1 mewn perthynas â blwyddyn academiaidd o'r cwrs sy'n dechrau cyn 1 Medi 2022; a

(b) A yn gwneud cais am gymorth mewn cysylltiad â'r cwrs hwnnw, neu gwrs dynodedig y mae statws A fel myfyriwr cymwys wedi ei drosglwyddo iddo o'r cwrs hwnnw yn unol â'r Rhan hon.

(2B) Mewn cysylltiad â chwrs dynodedig sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ionawr 2028, mae paragraff (2)(b) yn cael effaith fel pe na bai'n crybwyll paragraffau 8A, 9B, 9BA a 9D.";

(b) ym mharagraff (8), yn lle "(9) a (10)" mewnosoder "(2B) a (9) i (10D)";

(c) ar ôl paragraff (10A) mewnosoder—

"(10B) Pan fo—

(a) Gweinidogion Cymru wedi penderfynu bod person ("A"), yn rhinwedd y ffaith ei fod yn berson sydd â hawliau a ddiogelir sydd â chaniatâd cyfyngedig i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynnddi a roddir yn rhinwedd

(c) Article 10 (personal scope) of the Swiss citizens' rights agreement."

5. In regulation 6 (eligible students)—

(a) in paragraph (2)—

(i) for "paragraph" substitute "paragraphs (2B) and";

(ii) for sub-paragraph (b) substitute—

"(b) the Welsh Ministers determine in connection with an application for support under these Regulations that the person falls within one of the categories set out—

(i) in paragraphs 2A, 4, 6A, 7, 8A, 9A, 9B, 9BA, 9C, 9D, 10A, 11A and 12A in Part 2 of Schedule 1, or

(ii) in paragraphs 6, 7, 8, 9, 10, 11 and 12 in Part 2 of Schedule 1, where paragraph (2A) applies.

(2A) This paragraph applies where—

(a) in connection with a designated course beginning before 1 September 2022, the Welsh Ministers, in assessing an application for support by a person ("A"), determined that A fell within one of the categories set out in paragraphs 6, 7, 8, 9, 10, 11 and 12 in Part 2 of Schedule 1 in relation to an academic year of the course beginning before 1 September 2022; and

(b) A applies for support in connection with that course, or a designated course to which A's status as an eligible student is transferred from that course in accordance with this Part.

(2B) In connection with a designated course beginning on or after 1 January 2028, paragraph (2)(b) has effect as if it did not mention paragraphs 8A, 9B, 9BA and 9D.";

(b) in paragraph (8), for "(9) and (10)" insert "(2B) and (9) to (10D)";

(c) after paragraph (10A) insert—

"(10B) Where—

(a) the Welsh Ministers determined that, by virtue of being a person with protected rights with limited leave to enter or remain in the United Kingdom granted by virtue of residence scheme

rheolau mewnfudo'r cynllun preswyllo, yn fyfyrwr cymwys mewn cysylltiad—

- (i) â chais am gymorth ar gyfer un o flynyddoedd cynharach y cwrs cyfredol; neu
- (ii) â chais am gymorth mewn cysylltiad â chwrs dynodedig yn yr Athrofa y trosglwyddwyd statws A fel myfyriwr cymwys ohono i'r cwrs cyfredol; a

- (b) ar y diwrnod cyn bod y flwyddyn academaidd y mae A yn gwneud cais am gymorth mewn cysylltiad â hi yn dechrau, nad oes gan A ganiatâd cyfyngedig cyfredol mwyach i ddod i mewn neu i aros a roddwyd yn rhinwedd rheolau mewnfudo'r cynllun preswyllo ac nad oes unrhyw ganiatâd pellach i ddod i mewn neu i aros wedi ei roi o dan y rheolau hynny,

mae statws A fel myfyriwr cymwys yn terfynu yn union cyn diwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd y mae A yn gwneud cais am gymorth mewn cysylltiad â hi.

(10C) Pan fo—

- (a) Gweinidogion Cymru wedi penderfynu bod person (“A”), yn rhinwedd y ffaith ei fod yn berson sydd â chaniatâd Calais, yn fyfyrwr cymwys mewn cysylltiad â chais am gymorth ar gyfer un o flynyddoedd cynharach y cwrs cyfredol neu mewn cysylltiad â chais am gymorth ar gyfer cwrs dynodedig yn yr Athrofa y trosglwyddwyd statws A fel myfyriwr cymwys ohono i'r cwrs cyfredol; a
- (b) y cyfnod y caniateir i berson sydd â chaniatâd Calais aros yn y Deyrnas Unedig i fod i ddod i ben cyn diwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd y mae A yn gwneud cais am gymorth mewn cysylltiad â hi ac nad oes, ar y diwrnod cyn bod y flwyddyn academaidd honno'n dechrau, unrhyw ganiatâd pellach i aros wedi ei roi,

mae statws A fel myfyriwr cymwys yn terfynu ar y diwrnod cyn diwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd y mae A yn gwneud cais am gymorth mewn cysylltiad â hi.

immigration rules, a person (“A”) was an eligible student in connection with—

- (i) an application for support for an earlier year of the current course; or
- (ii) an application for support in connection with a designated course at the Institute from which A's status as an eligible student has been transferred to the current course; and

- (b) as at the day before the academic year in respect of which A is applying for support begins, A no longer has extant limited leave to enter or remain granted by virtue of residence scheme immigration rules and no further leave to enter or remain has been granted under those rules,

A's status as an eligible student terminates immediately before the first day of the academic year in respect of which A is applying for support.

(10C) Where—

- (a) the Welsh Ministers determined that, by virtue of being a person with Calais leave, a person (“A”) was an eligible student in connection with an application for support for an earlier year of the current course or in connection with an application for support for a designated course at the Institute from which A's status as an eligible student has been transferred to the current course; and
- (b) the period for which a person with Calais leave is allowed to stay in the United Kingdom is due to expire before the first day of the academic year in respect of which A is applying for support and, as at the day before that academic year begins, no further leave to remain has been granted,

A's status as an eligible student terminates on the day before the first day of the academic year in respect of which A is applying for support.

(10D) Pan fo—

- (a) Gweinidogion Cymru wedi penderfynu bod person (“A”), yn rhinwedd y faith ei fod yn berson y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel partner a ddiogelir neu’n blentyn i berson o’r fath, yn fyfyrwr cymwys mewn cysylltiad â chais am gymorth ar gyfer un o flynyddoedd cynharach y cwrs cyfredol neu mewn cysylltiad â chais am gymorth ar gyfer cwrs dynodedig yn yr Athrofa y trosglwyddwyd statws A fel myfyrwr cymwys ohono i’r cwrs cyfredol; a
- (b) y cyfnod y caniateir i berson sydd â chaniatâd i aros fel partner a ddiogelir aros yn y Deyrnas Unedig i fod i ddod i ben cyn diwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd y mae A yn gwneud cais am gymorth mewn cysylltiad â hi ac nad oes, ar y diwrnod cyn bod y flwyddyn academaidd honno’n dechrau, unrhyw ganiatâd pellach i aros wedi ei roi ac nad oes unrhyw apel yn yr arfaeth (o fewn ystyr adran 104 o Ddeddf Cenedligrwydd, Mewnfudo a Lloches 2002(1)),

mae statws A fel myfyrwr cymwys yn terfynu ar y diwrnod cyn diwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd y mae A yn gwneud cais am gymorth mewn cysylltiad â hi.

(10E) Pan fo—

- (a) Gweinidogion Cymru wedi penderfynu bod person (“A”), yn rhinwedd y ffaith ei fod—
 - (i) yn dod o fewn paragraff (a)(iii), (iv) neu (v) o’r diffiniad o “person sydd â hawliau gwarchoddedig”; neu
 - (ii) yn bodloni’r amodau ym mharagraff 3(1)(a)(iii) neu (iv) yn Rhan 2 o Atodlen 1,

yn fyfyrwr cymwys mewn cysylltiad â chais am gymorth ar gyfer blwyddyn academaidd o gwrs dynodedig, a

- (b) ar y diwrnod cyn bod y flwyddyn academaidd yn dechrau, nad yw A yn berson sydd â hawliau gwarchoddedig,

(10D) Where—

- (a) the Welsh Ministers determined that, by virtue of being a person granted leave to remain as a protected partner or the child of such a person (“A”) was an eligible student in connection with an application for support for an earlier year of the current course or in connection with an application for support for a designated course at the Institute from which A’s status as an eligible student has been transferred to the current course; and
- (b) the period for which a person granted leave to remain as a protected partner is allowed to stay in the United Kingdom is due to expire before the first day of the academic year in respect of which A is applying for support and, as at the day before that academic year begins, no further leave to remain has been granted and no appeal is pending (within the meaning of section 104 of the Nationality, Immigration and Asylum Act 2002(1)),

A’s status as an eligible student terminates on the day before the first day of the academic year in respect of which A is applying for support.

(10E) Where—

- (a) the Welsh Ministers have determined that, by virtue of—
 - (i) falling within paragraph (a)(iii), (iv) or (v) of the definition of “person with protected rights”; or
 - (ii) meeting the conditions in paragraph 3(1)(a)(iii) or (iv) in Part 2 of Schedule 1,

A person (“A”) is an eligible student in connection with an application for support for an academic year of a designated course; and

- (b) as at the day before the academic year begins, A is not a person with protected rights,

(1) 2002 p. 41. Diwygiwyd adran 104 gan Ddeddf Lloches a Mewnfudo (Trin Hawlwyr, etc.) 2004 (p. 19), Atodlenni 2 a 4; Deddf Mewnfudo, Lloches a Chenedligrwydd 2006 (p. 13), adran 9; O.S. 2010/21 a Deddf Mewnfudo 2014 (p. 22), Atodlen 9.

(1) 2002 c. 41. Section 104 was amended by the Asylum and Immigration (Treatment of Claimants, etc.) Act 2004 (c. 19), Schedules 2 and 4; the Immigration, Asylum and Nationality Act 2006 (c. 13), section 9; S.I. 2010/21 and the Immigration Act 2014 (c. 22), Schedule 9.

mae statws A fel myfyriwr cymwys yn terfynu yn union cyn diwrnod cyntaf y flwyddyn academiaidd y mae A yn gwneud cais am gymorth mewn cysylltiad â hi.”

6. Yn rheoliad 9 (trosglwyddo cymhwystra), ar ôl paragraff (1) mewnosoder—

“(1A) Nid yw paragraff (1) yn gymwys i berson sy’n fyfyrwr cymwys yn rhinwedd rheoliad 6(2)(b)(ii) ond pan na fo statws y person hwnnw fel myfyriwr cymwys wedi ei drosglwyddo ar neu ar ôl 1 Medi 2022 o’r cwrs dynodedig y cyfeirir ato yn rheoliad 6(2A)(a) i gwrs dynodedig arall.”

7. Yn rheoliad 15(2) (grantiau at gostau byw a chostau eraill), yn lle’r geiriau o “paragraff 9” hyd at y diwedd rhodder “un neu ragor o baragraffau 2A, 9, 9A, 9BA, 9C, 9D, 10 a 10A yw’r unig baragraff neu baragraffau yn Rhan 2 o Atodlen 1 y mae’r myfyriwr yn dod o’i fewn neu o’u mewn.”

8. Yn rheoliad 17(2) (lwfans myfyriwr anabl), yn lle’r geiriau o “paragraff 9” hyd at y diwedd rhodder “un neu ragor o baragraffau 2A, 9, 9A, 9BA, 9C, 9D, 10 a 10A yw’r unig baragraff neu baragraffau yn Rhan 2 o Atodlen 1 y mae’r myfyriwr yn dod o’i fewn neu o’u mewn.”

9. Yn rheoliad 20(3) (grant dibynyddion mewn oed), yn lle’r geiriau o “paragraff 9” hyd at y diwedd rhodder “un neu ragor o baragraffau 2A, 9, 9A, 9BA, 9C, 9D, 10 a 10A yw’r unig baragraff neu baragraffau yn Rhan 2 o Atodlen 1 y mae’r myfyriwr yn dod o’i fewn neu o’u mewn.”

10. Yn rheoliad 22(2) (lwfans dysgu rhieni), yn lle’r geiriau o “paragraff 9” hyd at y diwedd rhodder “un neu ragor o baragraffau 2A, 9, 9A, 9BA, 9C, 9D, 10 a 10A yw’r unig baragraff neu baragraffau yn Rhan 2 o Atodlen 1 y mae’r myfyriwr yn dod o’i fewn neu o’u mewn.”

11.—(1) Mae Atodlen 1 (myfyrwyr cymwys) wedi ei diwygio fel a ganlyn:

(2) Ym mharagraff 1 (dehongli)—

(a) yn is-baragraff (1)—

(i) hepgorer y diffiniad o “cytundeb ar hawliau dinasyddion Swisaidd”, “cytundeb gwahanu EFTA yr AEE”, “hawl i breswyllo’n barhaol” a “rheolau mewnfudo’r cynllun preswyllo”;

(ii) yn y diffiniad o “aelod o deulu”—

(aa) ym mharagraff (a), yn lle “neu berson hunangyflogedig o’r AEE” rhodder “, person hunangyflogedig o’r AEE, neu berson perthnasol o

A’s status as an eligible student terminates immediately before the first day of the academic year in respect of which A is applying for support.”

6. In regulation 9 (transfer of eligibility), after paragraph (1) insert—

“(1A) Paragraph (1) applies to a person who is an eligible student by virtue of regulation 6(2)(b)(ii) only where that person’s status as an eligible student has not been transferred on or after 1 September 2022 from the designated course referred to in regulation 6(2A)(a) to another designated course.”

7. In regulation 15(2) (grants for living and other costs), for the words from “paragraph 9” to the end substitute “the only paragraph or paragraphs in Part 2 of Schedule 1 into which the student falls is one or more of paragraphs 2A, 9, 9A, 9BA, 9C, 9D, 10 and 10A.”

8. In regulation 17(2) (disabled student’s allowance), for the words from “paragraph 9” to the end substitute “the only paragraph or paragraphs in Part 2 of Schedule 1 into which the student falls is one or more of paragraphs 2A, 9, 9A, 9BA, 9C, 9D, 10 and 10A.”

9. In regulation 20(3) (adult dependants’ grant), for the words from “paragraph 9” to the end substitute “the only paragraph or paragraphs in Part 2 of Schedule 1 into which the student falls is one or more of paragraphs 2A, 9, 9A, 9BA, 9C, 9D, 10 and 10A.”

10. In regulation 22(2) (parents’ learning allowance), for the words from “paragraph 9” to the end substitute “the only paragraph or paragraphs in Part 2 of Schedule 1 into which the student falls is one or more of paragraphs 2A, 9, 9A, 9BA, 9C, 9D, 10 and 10A.”

11.—(1) Schedule 1 (eligible students) is amended as follows:

(2) In paragraph 1 (interpretation)—

(a) in sub-paragraph (1)—

(i) omit the definitions of “EEA EFTA separation agreement”, “residence scheme immigration rules”, “right of permanent residence” and “Swiss citizens’ rights agreement”;

(ii) in the definition of “family member”—

(aa) in paragraph (a), for “or an EEA self-employed person” substitute “, an EEA self-employed person, or a relevant person of Northern

- Ogledd Iwerddon sy'n cael ei drin fel gweithiwr mudol o'r AEE neu berson hunangyflogedig o'r AEE yn rhinwedd paragraff 6A(3)";
- (bb) ym mharagraff (c), ar ôl "Gyfarwyddeb 2004/38"(1) mewnosoder "neu, at ddibenion paragraff 9A, mewn perthynas â pherson perthnasol o Ogledd Iwerddon a fyddai'n dod o fewn Erthygl 7(1)(c) o Gyfarwyddeb 2004/38 pe bai'r person hwnnw yn wladolyn o'r UE neu'n wladolyn o'r UE yn unig";
- (cc) ym mharagraff (d), ar ôl "Gyfarwyddeb 2004/38" mewnosoder "neu, at ddibenion paragraff 9A, mewn perthynas â pherson perthnasol o Ogledd Iwerddon a fyddai'n dod o fewn Erthygl 7(1)(b) o Gyfarwyddeb 2004/38 pe bai'r person hwnnw yn wladolyn o'r UE neu'n wladolyn o'r UE yn unig";
- (dd) ym mharagraff (e), yn lle "paragraff 9" rhodder "paragraffau 9, 9B, 9C a 9D";
- (iii) yn lle'r diffiniad o "gwladolyn o'r Deyrnas Unedig" rhodder—
 "mae i "gwladolyn o'r Deyrnas Unedig" yr ystyr a roddir i "United Kingdom national" gan Erthygl 2(d) o'r cytundeb ymadael â'r UE;";
- (b) ar ôl is-baragraff (5) mewnosoder—
 "(5A) At ddibenion yr Atodlen hon, mae cyfeiriad at "Member State" neu "State" yn Erthygl 7 o Gyfarwyddeb 2004/38 i'w ddarllen fel pe bai'n cynnwys y Deyrnas Unedig.";
- (c) yn is-baragraff (7) ar ôl "Ynysoedd" mewnosoder "y, yn y diriogaeth y mae'r Deyrnas Unedig, yr Ynysoedd a Gweriniaeth Iwerddon yn ei ffurfio";
- (d) yn is-baragraff (8)—
 (i) ar ôl "Deyrnas Unedig" y tro cyntaf y mae'n ymddangos, mewnosoder "y, y diriogaeth y mae'r Deyrnas Unedig, yr Ynysoedd a Gweriniaeth Iwerddon yn ei ffurfio";
- Ireland who is treated as an EEA migrant worker or an EEA self-employed person by virtue of paragraph 6A(3)";
- (bb) in paragraph (c), after "Directive 2004/38"(1) insert "or, for the purposes of paragraph 9A, in relation to a relevant person of Northern Ireland who would fall within Article 7(1)(c) of Directive 2004/38 if that person were an EU national or solely an EU national";
- (cc) in paragraph (d), after "Directive 2004/38" insert "or, for the purposes of paragraph 9A, in relation to a relevant person of Northern Ireland who would fall within Article 7(1)(b) of Directive 2004/38 if that person were an EU national or solely an EU national";
- (dd) in paragraph (e), for "paragraph 9" substitute "paragraphs 9, 9B, 9C and 9D";
- (iii) for the definition of "United Kingdom national" substitute—
 "'United Kingdom national" has the meaning given by Article 2(d) of the EU withdrawal agreement;";
- (b) after sub-paragraph (5) insert—
 "(5A) For the purposes of this Schedule, a reference to a "Member State" or "State" in Article 7 of Directive 2004/38 is to be read as including the United Kingdom.";
- (c) in sub-paragraph (7) after "Islands" insert "y, the territory comprising the United Kingdom, the Islands and the Republic of Ireland";
- (d) in sub-paragraph (8)—
 (i) after "United Kingdom" the first time it appears, insert "y, the territory comprising the United Kingdom, the Islands and the Republic of Ireland";

(1) OJ Rhif L158, 30.04.2004, t. 77.

(1) OJ No L158, 30.04.2004, p. 77.

(ii) ar ôl paragraff (a) mewnosoder—

“(aa) yn achos aelodau o luoedd arfog rheolaidd Gweriniaeth Iwerddon, unrhyw gyfnod pan fyddant yn gwasanaethu fel aelodau o’r lluoedd hynny y tu allan i’r diriogaeth y mae’r Deyrnas Unedig, yr Ynysoedd a Gweriniaeth Iwerddon yn ei ffurfio;”.

(3) Ym mharagraff 2(1) (personau sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig, yn lle paragraff (a) rhodder—

“(a) sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig ar y dyddiad perthnasol ac nad yw’n dod o fewn paragraff 3;”.

(4) Ar ôl paragraff 2 mewnosoder—

“2A.—(1) Person—

- (a) sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig ar y dyddiad perthnasol ac nad yw’n dod o fewn paragraff 3;
- (b) sy’n preswyllo fel arfer yng Nghymru ar y dyddiad perthnasol;
- (c) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y diriogaeth y mae’r Deyrnas Unedig, yr Ynysoedd a Gweriniaeth Iwerddon yn ei ffurfio a thrwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs; a
- (d) yn ddarostyngedig i is-baragraff (2), nad yw wedi preswyllo fel arfer yn y diriogaeth y mae’r Deyrnas Unedig, yr Ynysoedd a Gweriniaeth Iwerddon yn ei ffurfio yn ystod unrhyw ran o’r cyfnod y cyfeirir ato ym mharagraff (c) yn gyfan gwbl neu’n bennaf at y diben o dderbyn addysg lawnamser.

(2) Nid yw paragraff (d) o is-baragraff (1) yn gymwys i berson sy’n cael ei drin fel pe bai’n preswyllo fel arfer yn y diriogaeth y mae’r Deyrnas Unedig, yr Ynysoedd a Gweriniaeth Iwerddon yn ei ffurfio yn unol â pharagraff 1(7).”

(5) Ym mharagraff 3—

- (a) rhifer y testun presennol yn is-baragraff (1);
- (b) yn lle is-baragraff (1)(a) fel y’i rhifwyd felly rhodder—
 - “(a) sy’n bodloni un o’r amodau a ganlyn ar y dyddiad perthnasol—

(ii) after paragraph (a) insert—

“(aa) in the case of members of the regular armed forces of the Republic of Ireland, any period which they serve outside the territory comprising the United Kingdom, the Islands and the Republic of Ireland as members of such forces;”.

(3) In paragraph 2(1) (persons settled in the United Kingdom), for paragraph (a) substitute—

“(a) is settled in the United Kingdom on the relevant date and does not fall within paragraph 3;”.

(4) After paragraph 2 insert—

“2A.—(1) A person—

- (a) who is settled in the United Kingdom on the relevant date and does not fall within paragraph 3;
- (b) who is ordinarily resident in Wales on the relevant date;
- (c) who has been ordinarily resident in the territory comprising the United Kingdom, the Islands and the Republic of Ireland and throughout the three-year period preceding the first day of the first academic year of the course; and
- (d) subject to sub-paragraph (2), whose ordinary residence in the territory comprising the United Kingdom, the Islands and the Republic of Ireland has not during any part of the period referred to in paragraph (c) been wholly or mainly for the purpose of receiving full-time education.

(2) Paragraph (d) of sub-paragraph (1) does not apply to a person who is treated as being ordinarily resident in the territory comprising the United Kingdom, the Islands and the Republic of Ireland in accordance with paragraph 1(7).”

(5) In paragraph 3—

- (a) number the existing text as sub-paragraph (1);
- (b) for sub-paragraph (1)(a) as so numbered substitute—
 - “(a) meets one of the following conditions on the relevant date—

- (i) mae'r person o fewn cwmpas personol y darpariaethau hawliau dinasyddion ac wedi setlo yn y Deyrnas Unedig yn rhinwedd cael caniatâd amhenodol i ddod i mewn neu i aros o dan reolau mewnfudo'r cynllun preswyllo;
 - (ii) o ran y person—
 - (aa) mae o fewn cwmpas personol y darpariaethau hawliau dinasyddion;
 - (bb) mae'n ddinesydd Gwyddelig sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig nad yw'n ofynnol iddo, yn unol ag adran 3ZA o Ddeddf Mewnfudo 1971, gael caniatâd i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi; ac
 - (cc) byddai'n bodloni'r gofynion cymhwystra ar gyfer caniatâd amhenodol i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi a roddir yn rhinwedd rheolau mewnfudo'r cynllun preswyllo pe bai'r person hwnnw yn gwneud cais am ganiatâd o'r fath;
 - (iii) o ran y person—
 - (aa) mae o fewn cwmpas personol y darpariaethau hawliau dinasyddion;
 - (bb) mae'n berson perthnasol at ddibenion rheoliad 3 o Reoliadau Hawliau Dinasyddion 2020; a
 - (iv) o ran y person—
 - (aa) mae o fewn cwmpas personol y darpariaethau hawliau dinasyddion;
